# Incwm a gwariant pysgodfeydd (2017/18) – papur gwybodaeth

**Grwpiau pysgodfeydd lleol / Grwpiau gweithredu pysgodfeydd lleol (Mehefin 2018)**

**Rob Evans (Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)**

rob.evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## 1.0 Diben

Diben y papur hwn yw:

- rhoi lefel uchel o wybodaeth i grwpiau pysgodfeydd lleol am ein halldro cyllidebol ar gyfer pysgodfeydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd pysgodfeydd benodol o dan Adran 6 (6) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i 'gynnal, gwella a datblygu' pysgodfeydd dŵr croyw a mudol yng Nghymru.

2.2 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut rydym i fod i gyflawni'r dyletswyddau hyn fel a ganlyn:

- Dylid sicrhau cadwraeth a chynnal yr amrywiaeth o bysgod dŵr croyw a physgod mudol a gwarchod eu hamgylchedd dyfrol
- Dylid cynyddu'r cyfraniad y mae pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yn ei wneud i'r economi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ynysig ac ardaloedd â lefelau isel o incwm
- Dylid cynyddu gwerth cymdeithasol pysgota fel gweithgaredd hamdden hygyrch ac iach

2.3 Mae ein rôl gyda physgodfeydd yn cynnwys amddiffyn stociau o bysgod a darparu gwasanaeth i enweirwyr y telir amdano gan incwm o drwyddedau gwialen. Mae'r pwerau i fodloni'r dyletswyddau hyn wedi'u cynnwys yn bennaf yn Neddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009, a Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014.

2.4 Mae pwerau penodol o ran trwyddedu genweirio gyda gwialen a llinyn a rhwyd yn Adran 25 o’r Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer gweithredu system drwyddedu ar gyfer gwialennau a rhwydi a gosod ffioedd ar eu cyfer.

## 3.0 Egwyddorion ariannu pysgodfeydd

3.1 Mae'r llywodraeth yn trin incwm o drwyddedau gwialen fel 'treth wedi'i neilltuo', a rhaid ei wario ar y gweithgarwch yr enillwyd yr arian ohono.

3.2 Mae egwyddor gyffredinol, a ystyrir yn orfodol, na chaiff incwm a enillir trwy drwyddedau pysgod bras a brithyllod nad ydynt yn fudol ei ddefnyddio i ariannu gwaith ar bysgodfeydd eogiaid a brithyllod y môr ac i'r gwrthwyneb. Felly, telir am unrhyw ddiffyg mewn incwm i gefnogi'r gwariant cytunedig ar bysgodfeydd mudol gan gymorth grant Llywodraeth Cymru.

3.3 Ni ddylid defnyddio incwm o drwyddedau gwialen i asesu, adfer na lliniaru niwed amgylcheddol a achosir gan weithgareddau eraill.

## 4.0 Ariannu gweithgareddau pysgodfeydd

4.1 Yn ystod 2017/18, cawsom bron i £4 miliwn o gyllid ar gyfer gwaith pysgodfeydd yng Nghymru (Tabl 1), a oedd yn cynnwys £1.1 miliwn o werthu trwyddedau gwialen. Daeth y gweddill o gymorth grant Llywodraeth Cymru (£2.2 miliwn), ffioedd adnoddau dŵr (£0.3 miliwn, gan gynnwys costau lliniaru amgen), cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer monitro (£0.15 miliwn), a rhai derbynebau amrywiol.

**Tabl 1 Cyllideb incwm a gwariant pysgodfeydd**

| | Nifer y staff | Cost (£ miliwn) |
|---|---|---|
| Staff pysgodfeydd uniongyrchol | 56 | 2.3 |
| Staff anuniongyrchol | 15 | 0.6 |
| Cyfanswm y staff | 71 | 2.9 |
| | | |
| Costau pysgodfeydd uniongyrchol heb gynnwys staff | | 0.6 |
| Costau anuniongyrchol heb gynnwys staff | | 0.5 |
| Cyfanswm costau heb gynnwys staff | | 1.1 |
| | | |
| **Cyfanswm costau'r pysgodfeydd** | | **£4.0** |

4.2 Caiff yr incwm ei wario'n bennaf ar orfodi deddfwriaeth pysgodfeydd, gwirio trwyddedau gwialen a rhwyd, gweithgareddau gwrth-botsio, ymchwilio i farwolaethau pysgod a achosir gan glefyd a llygredd, monitro, gwella cynefin, gwaith ymchwil, rhoi cyngor (o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn allanol), a chysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Ariennir rhai o'r gweithgareddau hyn gan yr incwm a enillir trwy drwyddedau gwialen ac eraill trwy'r cymorth grant, a chaiff rhai eu hariannu trwy gyfuniad o ffynonellau (er enghraifft, gallai swyddogion gorfodi wirio trwyddedau gwialen a ariennir gan yr incwm o drwyddedau gwialen a gweithgareddau gwrth-botsio hefyd a ariennir gan y cymorth grant).

4.3 Mae 56 aelod o staff amser llawn yn gwneud gwaith pysgodfeydd uniongyrchol yn Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd. Caiff 15 aelod ychwanegol o staff nad ydynt yn ymwneud â physgodfeydd eu hariannu o'r gyllideb pysgodfeydd i ddarparu cymorth neu wasanaethau 'galluogi', gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol, cyfathrebu, cyllid a thechnoleg gwybodaeth.

4.4 Mae costau staff uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cynnwys y gost o redeg a chynnal a chadw adeiladau, cerbydau, offer cyfrifiadurol, a ffioedd cytundebau gwasanaeth blynyddol Asiantaeth yr Amgylchedd a CEFAS.

## 5.0 Gwerthiannau trwydded gwialen

5.1 Rheolir y gwasanaeth gwerthu a gweinyddu trwyddedau gwialen yng Nghymru ar ein rhan gan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb ffurfiol. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn trosglwyddo'r holl incwm a enillir trwy werthiannau yng Nghymru i Cyfoeth Naturiol Cymru (gyda'r ffioedd gweinyddu safonol wedi'u tynnu ymaith, a oedd yn oddeutu £85,000 yn ystod 2017/18).

5.2 Gwelwyd gostyngiad yn y trwyddedau a werthwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 57,000 o drwyddedau yn 2012 i 53,000 yn 2016, gostyngiad o 7% a £120,000 yn llai o incwm dros yr un cyfnod (gweler Tablau 1 a 2 isod).

5.3 Er mwyn helpu i ddadwneud y dirywiad hwn yn y trwyddedau a werthir, cyflwynwyd categorïau trwydded newydd yn ogystal â ffioedd newydd yn 2017, gan gynnwys trwydded iau am ddim, trwydded pysgod bras tair gwialen, a thrwydded 365 o ddiwrnodau (gweler Atodiad 1). Yn ogystal, cafodd y gofyniad i gofrestru am drwydded iau am ddim ei newid ym mis Ebrill 2018 o 12–16 i 13–16 (o ganlyniad i newidiadau i'r ddeddfwriaeth diogelu data).

5.4 Oherwydd y newidiadau yn strwythur trwyddedau gwialen yn ystod 2017, nid yw'n bosibl bellach gwneud cymariaethau uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol. Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar fethodoleg a fydd yn caniatáu i ni ystyried gwerthiannau trwyddedau 365 o ddiwrnodau yn ogystal â gwerthiannau'r drwydded tair gwialen. Oherwydd y cynnydd mewn ffioedd a gyflwynwyd yn 2017, gwelwyd cynnydd o 9% yn yr incwm ar gyfer trwyddedau gwialen (£91,000) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Daeth y rhan fwyaf o'r incwm ychwanegol (£80,000) o werthiannau trwyddedau pysgod bras a brithyllod.

**Tabl 2 Nifer o drwyddedau a werthwyd yng Nghymru (2013–2017)**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brithyllod a physgod bras | 50,079 | 49,759 | 48,883 | 49,080 | 47,734 | 42,500 |
| Eogiaid a brithyllod y môr | 6,795 | 6,317 | 5,749 | 5,660 | 5,514 | 5,400 |
| **Cyfanswm** | 56,874 | 56,076 | 54,632 | 54,740 | 53,248 | 47,900 |

**Tabl 3 Incwm o werthu trwyddedau gwialen yng Nghymru (2013–2017*)**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brithyllod a physgod bras | £817,078 | £792,075 | £773,258 | £780,443 | £760,165 | £840,250 |
| Eogiaid a brithyllod y môr | £348,331 | £324,487 | £299,740 | £292,383 | £282,355 | £293,568 |
| **Cyfanswm** | £1,165,409 | £1,116,562 | £1,072,998 | £1,072,826 | £1,042,520 | £1,133,818 |

5.3 Mae'r dirywiad yn nifer y trwyddedau iau a werthwyd yng Nghymru (-46% rhwng 2012 a 2016) wedi bod yn arbennig o bryderus (Tabl 4), ond, o ganlyniad i gyflwyno trwydded iau am ddim ym mis Ebrill 2017 (a oedd yn £5 o'r blaen i bobl ifanc rhwng 12 a 16 oed), gwelwyd 40% o gynnydd mewn niferoedd yn ystod 2017 (1,000 yn fwy o drwyddedau) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'n parhau i fod yn is na chyfanswm 2012 (4,738).

**Tabl 4 Trwyddedau iau a werthwyd yng Nghymru (2012–2017)**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 (am ddim) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brithyllod a physgod bras | 4,084 | 3,472 | 2,950 | 2,635 | 2,244 | 2,814 |
| Eogiaid a brithyllod y môr | 654 | 533 | 378 | 340 | 308 | 738 |
| **Cyfanswm** | 4,738 | 4,005 | 3,328 | 2,975 | 2,552 | 3,552 |

5.5 Gwnaeth y cynnydd yn yr incwm a enillwyd trwy drwyddedau gwialen yn 2017 ganiatáu i ni neilltuo £50,000 er mwyn cyflawni nifer o brosiectau gwella pysgodfeydd pysgod bras, brithyllod a llyswennod. Cyflawnwyd y prosiectau hyn gan swyddogion prosiect pysgodfeydd cynaliadwy rhanbarthol. Ar sail yr incwm a ragwelir ar gyfer 2018/19, rydym yn bwriadu dyrannu £50,000 pellach eleni ar gyfer gwaith prosiect tebyg. Mae siawns, fodd bynnag, y bydd y gwanwyn oer a Chwpan Pêl-droed y Byd eleni yn effeithio ar werthiannau. Bydd gennym ragolwg gwerthiannau mwy cywir yn fuan. Cysylltwch â'ch swyddog prosiect pysgodfeydd cynaliadwy i gael rhagor o wybodaeth am waith prosiect arfaethedig (gweler y manylion cyswllt yn Atodiad 2 isod).

## 6.0 Crynodeb

6.1 Mae'r cymorth grant a'r incwm o werthu trwyddedau gwialen wedi bod yn dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ffioedd a chynhyrchion trwydded newydd a gyflwynwyd yn ystod 2017 wedi arwain at gynnydd yn yr incwm a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae rhywfaint o hwn wedi'i ddefnyddio i gyflawni nifer o brosiectau gwella pysgodfeydd pysgod bras a brithyllod ledled Cymru. Rydym yn gobeithio parhau i wneud hyn mewn blynyddoedd i ddod.

6.2 Mae'r cynnydd yn nifer y trwyddedau iau yr holwyd amdanynt wedi bod yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn yn y dyfodol trwy weithio gyda rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn bwriadu cydweithio â rhanddeiliaid i adolygu ein rôl ni a rôl eraill yn y gwaith o farchnata pysgodfeydd a hyrwyddo genweirio yng Nghymru.

**Atodiadau 1 a 2**

## Atodiad 1 Ffioedd a strwythur trwyddedau (2017–2020)

| | Math o drwydded | 2017–2020 |
|---|---|---|
| Pysgod bras a brithyllod | Llawn | £30 |
| | Llawn (gyda chonsesiwn) i bobl hŷn â'r anabl | £20 |
| | Tymor byr 1 diwrnod | £6 |
| | Tymor byr 8 diwrnod | £12 |
| | Iau (13 – 16 mlwydd oed) | Am ddim |
| | Trwydded 3 gwialen | £45 |
| | Trwydded 3 gwialen (gyda chonsesiwn) | £30 |
| Eogiaid a brithyllod y môr | Llawn | £82 |
| | Llawn (gyda chonsesiwn) i bobl hŷn â'r anabl | £54 |
| | Tymor byr 1 diwrnod | £12 |
| | Tymor byr 8 diwrnod | £27 |
| | Iau (13 – 16 mlwydd oed) | Am ddim |

Gellir prynu trwyddedau yn gyflym a hawdd ar-lein bellach, yn:

https://get-fishing-licence.service.gov.uk/

**Byddwch yn ymwybodol fod gwefannau'n cynnig gwasanaeth i brynu trwydded ar eich rhan, ond mae'r rhain yn codi ffi gwasanaeth ac nid oes ganddyn nhw unrhyw beth i'w wneud â Cyfoeth Naturiol Cymru nac Asiantaeth yr Amgylchedd.**

## Atodiad 2 Manylion cyswllt swyddogion prosiect pysgodfeydd cynaliadwy

Katrina Marshall (gogledd) Katrina.marshall@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Jason Jones (canolbarth) Jason.jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Steve Carter (de-orllewin) Stephen.carter@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Michael Clyde (de-ddwyrain) Michael.clyde@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk